BBC TEACH

# Llio

Llio, dwyt ti ddim ar dy ben dy hun,
ti’n un o filoedd ar filoedd yn y wlad
sy’n gofalu am eu rhieni,
yn ofalwr i dy dad,
tithau ond yn ddeng mlwydd oed
ar dy ffordd i’r ysgol uwchradd.
ond mae ‘na bobl glên ar gael
i dy gynghori ar ffyrdd ymlaen,
fel bod dy nosweithiau’n fwy ymlaciol
a dy ddyddiau’n llai o straen.

Mae’n rhaid cwrdd yn y man canol,
sgwrs rhwng dy dad a ti,
fel bod ei salwch ddim yn dabŵ
a dy fod dithau yn fwy rhydd.

Beth yw’r opsiwn arall
aros yn dy unfan,
pa fath o fywyd fydda hyn?

Mae ‘na rifau y galli di eu deialu
sydd o gymorth pan fydd pob dim
yn gwasgu ac yn mygu,
mae clustiau yma i wrando
ar dy bryderon ynghylch dy dad.
mae modd ichi fod yn ffrindiau
ac i bethau fod yn dda.

Does neb yn trio brifo ei gilydd
pan fo cariad,
ond mae hi’n amser estyn allan,
bydd pethau gwella
wrth siarad.


© Hawlfraint BBC